# Rheolaethau newydd arfaethedig ar bysgota â rhwyd er mwyn gwarchod stociau afon Dyfrdwy (Cymru) o eogiaid a brithyllod y môr

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen dechnegol hon yn cyflwyno'r achos dros adnewyddu a chyflwyno rheolaethau pysgota i ddiogelu stociau o eogiaid a brithyllod y môr yn afon Dyfrdwy. Mae'n gosod cynigion ar gyfer is-ddeddfau newydd i reoleiddio pysgodfeydd rhwydi yn aber afon Dyfrdwy. Mae hyn yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth o statws stoc a'r pryderon parhaus ynghylch statws poblogaethau pysgod ifanc.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ddyletswydd i reoleiddio pysgodfeydd salmonidau mudol cyhoeddus gan ddefnyddio gorchmynion cyfyngu ar rwydi ac is-ddeddfau. Diffinnir gorchmynion cyfyngu ar rwydi o dan adran 26 o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, ac maent yn rheoli nifer y trwyddedau a roddir i bysgodfeydd rhwydi ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr.  Rhaid adnewyddu gorchmynion cyfyngu ar rwydi o fewn deng mlynedd a gallai methu â gwneud hynny arwain at bysgodfa heb rwystr, h.y. ni fyddai unrhyw gyfyngiad ar nifer y trwyddedau rhwydi.

Mae pysgodfa afon Dyfrdwy yn cynnwys rhwydi sân a thriphlyg, gan dargedu eogiaid yn bennaf a dim ond dal nifer fechan o frithyllod y môr.

Roedd stoc eogiaid afon Dyfrdwy yn is na'i therfyn cadwraeth bron bob blwyddyn yn y 2000au cynnar, ac yn dilyn adolygiad yn 2005 o orchymyn cyfyngu ar rwydi afon Dyfrdwy, cyflwynwyd gorchymyn lleihau o sero ar sail cadwraeth.

Yn nhymor cyntaf gorchymyn 2005, cyhoeddwyd 13 o drwyddedau rhwyd sân a phedair trwydded rhwyd driphlyg. Ariannodd buddiannau genweirio afon Dyfrdwy bryniant llawn o'r bysgodfa rwydo, gan gyflymu'r dirywiad mewn gweithgaredd rhwydo –  roedd y trwyddedau pysgodfeydd rhwydi sân a thriphlyg yn sero erbyn 2008 a 2009, yn y drefn honno.  Hysbysebwyd a gweithredwyd y gorchymyn cyfyngu ar rwydi (dim trwyddedau) presennol yn 2015; heb gynnnal unrhyw drwyddedau, gan adlewyrchu'r angen i warchod eogiaid a brithyllod y môr.  Fe ddaw i ben ym mis Mehefin 2025.

Mae natur drawsffiniol afon Dyfrdwy yn golygu bod angen i CNC weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a, thrwyddynt hwy, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Natural England (NE), wrth adolygu a hysbysebu gorchymyn cyfyngu ar rwydi afon Dyfrdwy.

Yn ystod y degawdau diwethaf, mae statws y rhan fwyaf o'n stociau o salmonidau mudol yng Nghymru wedi dirywio ac nid yw afon Dyfrdwy yn eithriad. Mae ystod gymhleth o ffactorau wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys llai o bysgod yn goroesi yn y môr, pwysau ar gynefinoedd dŵr croyw (gan gynnwys ansawdd dŵr a diraddio cynefinoedd), pysgota anghynaliadwy yn y môr mawr yn y gorffennol, a physgodfeydd rhyng-gipiol eraill, gan gynnwys rhai pysgodfeydd mewn dyfroedd

domestig. Mae rhai o'r pwysau hyn wedi cael sylw neu wedi'u dileu, gan gynnwys cyflwyno gorchymyn sy'n gorfodi dal a rhyddhau pob eog yng Nghymru. Serch hynny, nid yw stociau wedi dychwelyd i lefelau hanesyddol, na hyd yn oed i lefelau cynaliadwy a fyddai'n caniatáu manteisio arnynt a'u cynaeafu. Credir bod effeithiau newid hinsawdd yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad parhaus stociau eogiaid a brithyllod y môr mewn ecosystemau dŵr croyw a morol.

Dyma ein hamcan cyffredinol ar gyfer eogiaid a brithyllod y môr:-

***"Diogelu cynaliadwyedd ein cyflenwad naturiol o stociau eogiaid a brithyllod y môr gwyllt yng Nghymru drwy gymhwyso'r arferion gwyddonol a rheolaeth gorau."***

Ein safbwynt ni, yn unol â'n dyletswyddau statudol a'n rhwymedigaethau rhyngwladol, yw mai dim ond pan fydd lefelau'n gynaliadwy y dylid manteisio ar stociau. Hyd nes y bydd stociau uwchben terfyn cadwraeth diogel, ni ellir caniatáu manteisio arnynt.

Mae afon Dyfrdwy wedi'i dynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, gydag eogiaid yn un o'r nodweddion dynodi.

Rhaid i gyfyngiadau newydd (gorchymyn cyfyngu ar rwydi neu is-ddeddfau) gael eu rhoi ar waith erbyn mis Mehefin 2025 er mwyn amddiffyn stociau bregus o eogiaid a brithyllod y môr yn afon Dyfrdwy. Wrth werthuso opsiynau rheoli, dylai cadwraeth a chynaliadwyedd hirdymor adnoddau eogiaid a brithyllod y môr gael blaenoriaeth dros ystyriaethau economaidd-gymdeithasol er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Ar ôl i'r cynigion gael eu cadarnhau a'u gweithredu, byddai is-ddeddfau'n cael eu cyflwyno i gau'r pysgodfeydd rhwydi sân a thriphlyg yn aber afon Dyfrdwy.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn ceisio barn ar y cynigion hyn.

## Tystiolaeth

Rydym wedi ystyried tair prif ffynhonnell tystiolaeth wrth bennu'r opsiwn a ffefrir gennym ar gyfer newid mewn rheoli:-

- Statws stociau eogiaid a brithyllod y môr llawndwf
- Statws eogiaid fel nodwedd ddynodedig ACA Afon Dyfrdwy
- Statws stociau eogiaid a brithyllod ifanc

Ar gyfer y ddwy rywogaeth, yr asesiad llawndwf yw'r prif ddull o werthuso statws stociau a llywio'r ymateb rheoli trwy'r strwythur penderfynu.

### Eogiaid

Mae'r asesiad diweddaraf o'n stociau eogiaid yn dangos bod afon Dyfrdwy ar hyn o bryd 'mewn perygl' o fethu â chyflawni ei hamcanion rheoli (yn 2023) a rhagwelir y bydd 'mewn perygl' ymhen pum mlynedd (yn 2028). Yn seiliedig ar lefelau dyddodi

wyau cyfartalog dros y pum mlynedd diwethaf (2019–2023), mae stoc afon Dyfrdwy wedi cofnodi diffygion yn erbyn ei tharged rheoli dangosol o -9.35 miliwn o wyau (-53%). Mae'r diffygion hyn yn cyfateb yn fras i -3,117 o bysgod llawndwf (pysgodyn yn pwyso wyth pwys).

Roedd statws eogiaid fel nodwedd ddynodedig o ACA Afon Dyfrdwy yn 'anffafriol' yn y cylch diweddaraf o asesiadau cyflwr a gyhoeddwyd (Milner ac eraill, 2013), a ysgogwyd yn bennaf gan rediadau llawndwf gwael.

### Brithyllod y môr

Mae'r asesiad diweddaraf o'n stociau o frithyllod y môr yn dangos bod stoc afon Dyfrdwy ar hyn o bryd 'mewn perygl' o beidio â chyrraedd ei therfynau cadwraeth a rhagwelir y bydd dal 'mewn perygl' yn 2028.  Yn seiliedig ar lefelau dyddodi wyau cyfartalog dros y pum mlynedd diwethaf (2019–2023), mae stoc afon Dyfrdwy wedi cofnodi diffyg o -2.68 miliwn o wyau (-26%), wedi'i gyfrifo yn erbyn targed rheoli dangosol o ~10.19 miliwn o wyau. Mae'r diffyg hwn yn cyfateb yn fras i 1,339 o hwyfellod (pysgodyn yn pwyso tri phwys).

### Salmonidau ifanc

Mae archwiliad o ddata arolwg electrobysgota ifanc ar gyfer afon Dyfrdwy yn dangos bod lefelau cynhyrchu silod mân eogiaid yn is na'r disgwyl yn ystod y deng mlynedd diwethaf ond yn gyffredinol mae niferoedd da o silod mân brithyllod. Mae'r arsylwad cyntaf yn cyd-fynd â statws diffygiol hwyfellod eogiaid, ond mae'r olaf yn awgrymu lefelau stoc iachach na'r hyn a ddangoswyd o ddychweliadau brithyllod y môr llawndwf.  Bydd stociau brithyllod ifanc hefyd yn cynnwys y pysgod hynny sy'n aros yn yr afon fel brithyllod preswyl.

## Opsiynau ar gyfer rheoli pysgodfa rhwydi afon Dyfrdwy i gynnal ac adfer stociau

Rydym wedi ystyried y prif opsiynau canlynol:

- **Opsiwn 1 – Gwneud dim (gadael i'r gorchmynion cyfyngu ar rwydi fynd yn ddi-rym)**

Gyda'r opsiwn hwn, byddai'r bysgodfa ar afon Dyfrdwy yn cael ei hailagor gyda nifer anghyfyngedig o drwyddedau ar gael o bosibl.

Mae'r dystiolaeth yn glir ar gyfer statws presennol a rhagamcanol stociau eogiaid a brithyllod y môr:  maen nhw 'mewn perygl'.  Er bod is-ddeddfau presennol yn diogelu eogiaid rhag cael eu cymryd, byddai pysgodfa rhwydi agored yn lleihau amddiffyniad stociau eogiaid a brithyllod y môr, gan gynyddu'r risg i'w poblogaethau.

Nid yw pysgodfa agored yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cenedlaethol a rhyngwladol, ein harweiniad sefydliadol, ein dulliau gweithredu, na'n strwythur penderfynu.

Nid yw hwn yn opsiwn hyfyw.

- **Opsiwn 2 – Adnewyddu'r gorchymyn cyfyngu ar rwydi (dim trwyddedau) am ddeng mlynedd**

Mae'r opsiwn hwn yn cynnal y dull presennol, gan gadw'r cyfyngiadau presennol ar waith gyda dim cynaeafu rhwng 2025 a 2035.

Mae'n cyd-fynd ag amcanion llesiant corfforaethol CNC o dan 'natur yn gwella' ac yn cydymffurfio â'n dyletswyddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Nid yw adnewyddu gorchymyn cyfyngu ar rwydi (dim trwyddedau) yn mynd i'r afael â'r ansicrwydd hirdymor a wynebir gan boblogaethau eogiaid a brithyllod y môr, sy'n prinhau.

Mae'n gadael yr opsiwn i adolygu ac o bosibl ailagor y bysgodfa ymhen deg mlynedd, ond gyda'r cynnydd yn y pwysau ar stociau eogiaid, rydym yn annhebygol o weld lefelau cynaeafu yn dychwelyd yn ystod ein hoes.

Mae hwn yn opsiwn hyfyw ond nid yw'n effeithiol o ran amddiffyniad yn wyneb ansicrwydd hirdymor a phwysau ar stociau eogiaid a brithyllod y môr sydd eisoes yn agored i niwed.

- **Opsiwn 3 – Cau'r bysgodfa (is-ddeddfau)**

Mae'r opsiwn hwn yn rhoi amddiffyniad tebyg i stociau eogiaid a brithyllod y môr ag Opsiwn 2 dros y deg mlynedd nesaf.  Fodd bynnag, mae'n dileu'r gofyniad am adolygiadau o'r gorchymyn cyfyngu ar rwydi yn y dyfodol a gweinyddu'r gorchymyn cyfyngu ar rwydi a chydymffurfio ag ef yn y dyfodol.

Mae'n cyd-fynd ag amcan llesiant cynllun corfforaethol CNC o ran 'natur yn gwella' ac yn cefnogi ein canllawiau, a'n dyletswyddau cenedlaethol a rhyngwladol.

Gyda'r statws presennol a rhagamcanol 'mewn perygl' ar gyfer ein stociau eogiaid a brithyllod y môr yn afon Dyfrdwy, mae cau'r bysgodfa yn rhoi amddiffyniad gwell ar gyfer ansicrwydd newid hinsawdd yn y dyfodol a phwysau cynyddol ar eu poblogaethau.

Mae'r opsiwn hwn yn alinio â bwriad pryniant 2009 i roi'r gorau i ymelwa masnachol.

Mae adferiad y stociau i lefelau gwarged y gellir eu cynaeafu yn ymddangos yn hynod annhebygol yn y dyfodol rhagweladwy; fodd bynnag, byddai opsiwn yn dal i fodoli i ailagor y bysgodfa pe bai hyn yn digwydd.

Mae'r opsiwn hwn yn ymarferol ac yn rhoi mwy o sicrwydd a diogelwch tymor hwy i'r stociau o eogiaid a brithyllod y môr ar afon Dyfrdwy.

**Effeithiau economaidd-gymdeithasol:** Gan nad oes pysgodfeydd rhwydi wedi bodoli yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, ni fu unrhyw fudd economaidd-gymdeithasol i'r cymunedau lleol o'r gweithgaredd hwn ac ni fydd cau'r bysgodfa yn newid hyn. Bydd manteision y mesurau arfaethedig yn cyfrannu at gadw stociau eogiaid a brithyllod y môr yn rhannau Cymreig afon Dyfrdwy a'u gwydnwch yn y dyfodol.

**Ymgynghori anstatudol – ymgysylltu a chydgysylltu â rhanddeiliaid:**Mae CNC wedi trafod y cynigion gyda'n rhanddeiliaid pysgodfeydd lleol. Yng Ngrŵp Cynghori Pysgodfeydd Lleol Gogledd Cymru a Fforwm Pysgodfeydd Cymru, ceisiasom farn a chyngor ar reoli pysgodfeydd rhwydi ar afon Dyfrdwy, gan ystyried statws y stociau cynhaliol.

Roedd cefnogaeth eang gan y ddau grŵp i gau'r bysgodfa rhwydi trwy is-ddeddfau. Nid oedd unrhyw gefnogaeth i adnewyddu'r gorchymyn cyfyngu ar rwydi gyda dim trwyddedau, na chwaith i adael i'r gorchymyn cyfyngu ar rwydi presennol ddod i ben, heb fesurau yn eu lle i sicrhau na fyddai stociau eogiaid a brithyllod y môr afon Dyfrdwy yn cael eu hecsbloetio ymhellach.

Ein casgliad yw:

Yr opsiwn a ffefrir yw Opsiwn 3, sef cau'r bysgodfa drwy is-ddeddfau. Hwn sy'n darparu'r amddiffyniad mwyaf rhag yr ansicrwydd a wynebir gan stociau eogiaid a brithyllod y môr yn afon Dyfrdwy yn y dyfodol ac mae'n cyd-fynd â'n hamcan cyffredinol "i amddiffyn, trwy gymhwyso arferion gwyddoniaeth a rheolaeth gorau, gynaliadwyedd ein hadnodd naturiol o stociau eogiaid gwyllt a brithyllod y môr yng Nghymru".

## Ein cynigion

Rydym yn cynnig ceisio cadarnhau is-ddeddfau newydd ar gyfer pysgota rhwydi yn aber afon Dyfrdwy, gan gau'r bysgodfa bresennol i bob pwrpas.

### Afon Dyfrdwy

**Is-ddeddfau Eogiaid a Brithyllod y Môr (Gwahardd Pysgota â Rhwydi) (Afon Dyfrdwy) (Cymru) 2025**

Is-ddeddf 4 – Gwahardd pysgota â rhwydi am eogiaid neu frithyllod y môr ar afon Dyfrdwy.

Noder: Mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar yr achos technegol ac is-ddeddfau pysgota â rhwydi ar gyfer afon Dyfrdwy ac yn ceisio sicrhau is-ddeddfau cymesur ar gyfer afon Dyfrdwy yn Lloegr, a thrwy hynny sicrhau dull dalgylch cyson ar gyfer yr afon drawsffiniol.

## Eich ymateb

Hoffem glywed eich barn am ein cynigion a'ch gwahodd i gyflwyno'r rhain gan ddefnyddio'r ffurflen sydd wedi'i chynllunio at y diben sydd ar gael drwy ein canolfan ymgynghori.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Gallwch ofyn am gopïau o'r dogfennau drwy e-bostio fisheries.wales@naturalresourceswales.gov.uk neu drwy ysgrifennu at

Richard Pierce
Rheoleiddio Pysgota â Rhwydi ar Afon Dyfrdwy
Cyfoeth Naturiol Cymru
Heol Caer
Bwcle
Sir y Fflint
CH7 3AJ

Dylai ymatebwyr nodi'n ofalus y bydd sylwadau i'r ymgynghoriad hwn ar drefniadau yng Nghymru yn cael eu derbyn gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd yr ymgynghoriad ar gyfer afon Dyfrdwy yn Lloegr yn ymgynghoriad gwahanol a bydd sylwadau i hwnnw'n cael eu derbyn naill ai gan Asiantaeth yr Amgylchedd neu gan Defra.